# <u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 27.11.25</u>

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:878 Presennol:** Bedwyr Fychan (Cadeirydd), Iwan Pugh Jones, Deryck Lewis, Gareth Wyn Jones, William Owen, Aled Griffiths, Rhodri Wigley, Gwen Lloyd, Paul Hughes, Gwenfair Rhys-Davies, Glyn Jones, Sandra Evans (Clerc)

**19:879: Ymddiheuriadau**: Huw Williams, Gareth Owen

**19:880: Materion Personol: -**

**19:881: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:882: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Hydref 2025**. Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Glyn Jones fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley.

**19:883: Materion yn codi o'r cofnodion.** Nodwyd bod 4 o bobl ddieithr wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf o'r tu allan i ardal y Cyngor a'r ardal leol yn ddi-rybudd. Ceisir cadarnhad gan Un Llais Cymru am drefn briodol ar gyfer y cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd.

Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol ar gyfer y Cadeirydd, y Clerc â'r Cynghorydd Sir Sian Cox i drafod Powys cynaliadwyy bwriad i ganoli gwasanaethau mewn 5 prif leoliad o fewn Powys sef y Drenweydd, y Trallwng, Llandrindod, Aberhonddu ac Ystradgynlais. Bydd y cyngh. Cox yn nodi'r pryderon am bellter y lleoliadau hyn o ardaloedd gwledig a'r anhawster gan rai i fynychu cyfarfodydd i ganfod barn. Ystyrir cynnal cyfarfodydd ar-lein at y dyfodol a chydnabu pwysigrwydd cynrychiolaeth gytbwys i ateb gofynion a sicrhau darpararu gwasanaethau i'r holl ardal oedd. Gofynnir i Marianne Evans, cynrychiolydd Powys ar gyfer ardal Glantwymyn ddod i gyfarfod CCG i drafod ymhellach.

**Diffibs – Diweddariad gan Bedwyr Fychan**. Mae'r sticeri wedi cyrraedd ar gyfer ciosg Llanwrin i ddangos bod diffib yno.

Nodwyd taw unigolion a thrigolion ardaloedd Tal-y-wern, Abercegir a Melinbyrhedyn oedd wedi hel arian ar gyfer diffibs a dyna sut yr oeddent wedi'u lleoli ar dai bobl. Mae perchnogion y tŷ lle leolir diffib Tal-y-wern yn fodlon iddo gael ei symud i leoliad mwy canolog. Trafodwyd posibiliadau ar gyfer ei leoli sef gofyn i Gyngor Sir Powys am ei osod ar bolyn wrth ymyl polyn lamp a'i weirio fo. Holir BT am y ciosg. Nodwyd bod y ciosg yn isel ei ddefnydd ond bod preswylwyr lleol yn awyddus i gadw'r ffon yn fyw yn niffyg signal ffon symudol. 01650511312

Mae William Owen yn parhau i drafod y broblem ddŵr yn Llanwrin. Bydd aelod Barcud yn ymweld â'r safle ac yn cyfarfod ag ef.

**19:884: Cynllunio** Dim

**19:885: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Cyflog y Clerc Mis Hydref (7) £297.00 Cynigiwyd hwn gan Rhodri Wigley ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths
- Torch £25.00 i Heather Williams ar gyfer y Lleng Brydeinig Cynigiwyd hyn gan Rhodri Wigley ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths
- HMRC £580.66 PAYE ar gyfer chwarter mis Awst. Cymerwyd taliadau yn y drefn anghywir. Cynigiwyd hyn gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies

- BT £1.00 Ciosg Darowen Cynigiwyd hwn gan Rhodri Wigley ac fe'i heiliwyd gan Iwan Pughe Jones. Nodwyd y bydd angen ei ychwanegu at y rhestr asedau a'r yswiriant

Archwiliad mewnol Awdit 2024-2025 Gofynnir i Mrs. Eirlys Pughe i'w wneud eleni eto Cynigiwyd hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Iwan Pughe Jones

**19:886**: Gohebiaeth Swyddfa Awdit Cymru – Cyhoeddwyd estyniad tan ddechrau Ionawr ar gyfer yr holl gynghorau cymuned nad oedd eto wedi cyflwyno'r cyfrifon. Bydd gofyn am ddogfennau ychwanegol. Mynegwyd diolch ar ran y Cyngor a'r Clerc i Bedwyr Fychan gan Aled Griffiths am ei waith yn darparu system gofnodi newydd ar gyfer y cyfrifon a fydd hefyd yn fudd cyffredinol. Nodwyd bod Bedwyr, a'r holl Gynghorwyr eraill yn cyfrannu'n hollol wirfoddol o ran y gwaith maent yn ei wneud.

**19:887**: Polisi Hyfforddiant i Gynghorwyr a Swyddogion. Nodwyd bod cyrsiau hyfforddi gan Un Llais Cymru'n cael eu rhannu gyda'r Cynghorwyr yn gyson. Cynigiwyd y dylai pob is-gadeirydd fynychu cwrs ar gyfer cadeiryddion newydd i'w paratoi ar gyfer y rôl. Cysylltir ag Un llais Cymru i ofyn am unrhyw argymhellion ar gyfer cyrsiau penodol eraill a chanllaw creu polisi ffurfiol.

**19:888: Adroddiadau'r Cynghorwyr** Biosffer Dyfi - Iwan Pughe Jones

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol yn ddiweddar. Mae'r sefyllfa ariannol yn wael ar hyn o bryd. Nodwyd bod ardal y Biosffer wedi ehangu ac o ganlyniad mae'n debyg bod mwy o amwysedd ynghylch yr amcanion. Mynegwyd eto werthfawrogiad o holl waith Andy Rowlands yn yr ardal leol yn y gorffennol. Tynnwyd sylw at botensial defnyddio statws UNESCO er bydd yr ardal e.e. twristiaeth.

**Llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn - Dafydd Evans** Llongyfarchiadau i dair ysgol y Ffederasiwn am wneud yn wych yn arolwg AEM yn ddiweddar. Mae enghreifftiau o arfer da wedi ei nodi ym mhob un. Anfonir gair i'w llongyfarch ar ran y Cyngor. Nodwyd bod problem barhaus gyda drewdod draen oedd yn ddirgelwch braidd. Mae'n bosib mai problem gyda'r system wresogi sydd.

Bwriedir prynu sied i ddal offer y tu allan ac mae aros am brisiau gan gontractwyr.

**Gwenfair Rhys-Davies** Mae meddygfa Bro Ddyfi wedi datgan ei bod wedi cael canmolaeth fawr yn adroddiad HIW a gyhoeddir ymhen pedair wythnos.

**19:889: Ffyrdd**

- Pont Cemaes wedi cael ei bwrw eto ac yn waeth fyth erbyn hyn - NMWTRA.
- Dŵr yn cronni ger eglwys Cemaes Cysylltir â NMWTRA
- Dŵr yn cronni ger arhosfan bysys Comins. Mae plant mewn perygl wrth gamu i'r ffordd i'w osgoi
- Dŵr yn cronni ger pont Comins ac mae angen clirio'r ffos
- Cais am ail wneud wyneb y ffordd wrth bont Comins – cafwyd addewid y byddai hyn y digwydd wrth wneud y gwaith yn Nhalerddig

- Ffordd Llanwrin – angen glanhau'r ffordd – heb ei wneud er gofyn y mis diwethaf.
- Y Coed ddol a Ganllwyd - Mae dŵr yn hel yn ddifrifol ar y ffordd gan beryglu defnyddwyr ffyrdd.
- Darowen a Thanybryn – Mae angen glanhau'r ffordd – dail yn berygl
- Ffordd rhiw Pont Rhydygwial – Mae dŵr yn dod o ochr arall y ffordd ac i lawr y rhiw

- Ffos wedi tagu ochr arall i'r ffordd i sied Rhydygwial – dŵr yn rhedeg ar draws y ffordd.
- fordd Cemaes ar gau rywbryd o fewn y 18 mis nesaf – nid o reidrwydd yn fuan.

**19:890: Unrhyw fater arall**

**Pwyllgor Eglwys Darowen – Cais am gael gosod goleuadau solar symudol wrth ochr y llwybr. Cynigiwyd y dylid cefnogi hyn gan Iwan Rhodri**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45

**Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 27.11.25**

- **Y Blewyn Glas** - Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r papur. Rhoddir cyfraniad o £500 tuag at gostau cynnal y Blewyn Glas yn seiliedig ar faint y gronfa hon a sawl ardal y mae'r Blewyn Glas yn gwasanaethu.
- **Urdd Maldwyn** - Penderfynwyd gohirio a gofyn am fanylion pellach o ran gwariant a chostau a niferoedd o ran plant ardal Glantwymyn i gael sail i benderfyniad teg
- **Urdd Cronfa i bawb** Er teilyngdod yr achos, nodwyd y byddai'n anodd barnu faint o fudd penodol a fyddai i bobl ifanc yr ardal hon felly byddai'r cais ddim yn addas.
- **CFfI Bro Ddyfi** – Her Elusennol Penderfynwyd cyfrannu £300.00 tuag at gostau hyrwyddo ac elusen Sefydliad DPJ a CFfI Bro Ddyfi
- **Cytundeb EDF** – Bydd EDF yn anfon cytundeb diwygiedig cywir gan ymddiheuro am yr oedi a'r camddealltwriaeth.
- Powys - Cysylltu diffib Darowen 20248796 £240.00 Cynigiwyd hwn gan Gareth Wyn Jones ac fe'i heiliwyd gan Iwan Pughe Jones

Daeth y cyfarfod i ben am 21.13